



Adroddiad Swyddog ar gyfer Cyngor yr Undeb
Dydd Llun 26 Chwefror, 6pm
Prif Ystafell Undeb y Myfyrwyr

Darparwyd yr adroddiad gan Bruce Wight, Swyddog Datblygu'r Undeb.

Emma - Swyddog Materion Academaidd

Mae Emma wedi cyhoeddi ein siarter cyflogaeth ôl-raddedig newydd ac mae'n gweithio gyda'r Is-Ganghellor ar gyflog tecach i athrawon ôl-raddedig, yn ogystal â hyfforddiant mwy cynhwysfawr a chyson ar draws yr holl adrannau. Mae hi'n gweithio gydag UCM Cymru ar gynhadledd fawr ar gyfer Cynrychiolwyr Academaidd sy'n cael ei chynnal yn Aberystwyth ym mis Chwefror, yn ogystal â chynllunio Cynhadledd yr Ôl-raddedigion a Gwobrau Addysgu dan Arweiniad Myfyrwyr sy'n digwydd yn ddiweddarach y semester hwn. Mae hi wedi cwrdd â'n holl Gynrychiolwyr Athrofa i drafod eu semester cyntaf ac mae'n edrych ar sut gellir datblygu hyn yn yr ail semester.

Cyflwynodd ddogfen ar ran yr UM ar y newidiadau i God Ansawdd y DU, sy'n arolygu sut mae prifysgolion yn rhedeg eu cyrsiau a'u systemau cefnogaeth, er mwyn sicrhau eich bod yn cael addysg o'r un ansawdd ag unrhyw fyfyrwr prifysgol arall ar draws y wlad. Mae hi wedi bod yn gweithio'n glòs â'r Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion ar hyn, ac rydym wedi cyflwyno llawer o adborth i sicrhau bod y polisi hwn yn gweithio er budd myfyrwyr. Yn dilyn nifer o gamgymeriadau a wnaed gydag arholiadau dros gyfnod arholiadau mis Ionawr, mae hi wedi dechrau gweithio'n glòs â'r Brifysgol i gynnal archwiliad o'r ffordd y caiff papurau arholiad eu hargraffu a'u prawf-ddarllen, gan sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu trin yn deg os digwydd unrhyw gamgymeriadau. Dwi hefyd yn gweithio ar arholiadau cefn-wrth-gefn gyda'r swyddfa amserlennu.

Jessica - Swyddog Cyfleoedd

Ar hyn o bryd mae'n gweithio'n galed i baratoi ar gyfer semester prysur yn llawn cyfleoedd i fyfyrwyr, gan ddechrau gydag Ail Ffeiriau'r Glas er mwyn i glybiau chwaraeon a chymdeithasau hyrwyddo eu hunain a recriwtio aelodau newydd ar gyfer yr ail semester. Mae hi hefyd yn helpu i baratoi hyd yn oed mwy o gyfleoedd ar gyfer Wythnos Gwirfoddoli (19 - 23 Chwefror) gan roi cyfle i fyfyrwyr ennill profiad mewn amrywiaeth o weithgareddau drwy fod yn Wirfoddolwyr. Ac yn olaf - efallai'r digwyddiad mwyaf yng Nghalendr Myfyrwyr Aberystwyth - *Superteams*; Mae Jess yn gweithio'n ddiflino i wneud digwyddiad eleni yn fwy ac yn well nag erioed!



Molly – Swyddog Llesiant

Mae'n sbel ers y diweddariad diwethaf felly mae llawer wedi digwydd! Mae Molly wedi bod yn gweithio ar fwy o waith y tu ôl i'r llenni yr wythnos hon ar ôl ei pherfformiad llwyddiannus yn The Vagina Monologues a werthodd pob tocyn. Mae hi wedi bod yn gweithio gyda'r brifysgol i gyfrannu at bolisi newydd ar fyfyrwyr sydd wedi'u dieithrio a newid y diwylliant. Mae hi wedi bod yn gweithio ar ei hymgyrch barhaus i roi terfyn ar drais ar sail rhywedd a ddechreuodd gyda'r panel yn ôl ym mis Tachwedd. Fel undeb, rydyn ni wedi bod yn gweithio i greu gwell cysylltiadau gydag UCM ac UCM Cymru a chafodd Molly ei phenodi i eistedd ar Bwyllgor Parth Lles UCM sy'n dylanwadu ar bolisiau cenedlaethol sy'n ymwneud â lles. Hefyd, mae hi wedi ail-addurno'r ystafell lesiant yn llwyr. Bellach, mae'n lle hyfryd newydd i fyfyrwyr ei ddefnyddio pryd bynnag. Ddydd Mercher yr wythnos ddiwethaf, cynhaliom ni ein cynhadledd fentora cyfoedion gyntaf gyda'r adran Cymorth i Fyfyrwyr. Roedd Molly yn rhan hanfodol ohoni ac mae'n parhau i weithio ar bolisi'r Undeb ynghylch hyn. Mae Molly wedi bod yn brysur iawn yn gweithio ar straen adeg arholiadau a dod â'r cŵn yn ôl a oedd yn llwyddiant mawr. Rydyn ni'n gobeithio cael cŵn tywys yn ôl yn y dyfodol i'ch cadw chi i gyd yn hapus ac yn gwenu yn ystod yr wythnosau llawn straen. Yn olaf, mae Molly wedi bod yn gweithio i greu polisi cydraddoldeb ac amrywioldeb ar gyfer yr undeb sydd wedi bod yn dasg heriol a'r gobaith yw y bydd hi'n ei gwblhau erbyn diwedd ei thymor yn y swyddfa yma yn UMAber. Diolch am eich holl gefnogaeth yn ystod y misoedd diwethaf, mae'n ei gwerthfawrogi'n fawr.

Gwion – Swyddog Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA

Pantycelyn - llwyddon ni i argyhoeddi cyngor y Brifysgol i ddefnyddio cyllid craidd ar gyfer y prosiect i sicrhau bod Panty yn cael ei ailagor erbyn mis Medi 2019. Mae hon yn fuddugoliaeth enfawr i fyfyrwyr Cymraeg i weld y neuadd breswyl enwog hon unwaith eto ar y trywydd iawn i gael ei hailagor erbyn 2019.

Rhyng-gol! Croesawyd 600 o fyfyrwyr o Fangor, Caerdydd, Caerfyrddin, Abertawe a Lerpwl! Cynhaliwyd gig yma ar y nos Sadwrn, gydag amrywiaeth o fandiau Cymraeg yn perfformio. Mae wedi cychwyn ei ymgyrch i hyrwyddo Cerddoriaeth Gymraeg, ac mae wedi creu rhestr chwarae Spotify, fel y bydd cân Gymraeg newydd yn cael ei hysbysebu bob wythnos trwy UMCA, er mwyn codi proffil y Gymraeg i fyfyrwyr Aber. Mae gan UMCA hefyd ei ffair y glas ei hun trwy gyfrwng y Gymraeg, felly os ydych chi'n dymuno cyfranogi mwy yn Niwylliant Cymru, mae croeso i chi fynychu.

Os ydych am wybod mwy am bob swyddog unigol, mae'r parthau nesaf ar 5, 6, 7, ac 8 Chwefror. Noder bod y Parth Chwaraeon a Chymdeithasau wedi symud i ddydd Iau, gan fod llawer o glybiau yn cynnal eu sesiynau ymarfer ar nos Lun; mae'r Parth Cymraeg bellach ar ddydd Llun.

- Yr Eisteddfod Ryng-gol – 9/10 Mawrth
Byddwn ni'n mynd â 150 o fyfyrwyr i Lamedd ar gyfer y Gystadleuaeth Ryng-gol eleni yn erbyn prifysgolion ledled Cymru. Rydyn ni'n ceisio'i hennill hi am y tro cyntaf ers 2015.
- Aber dros Ifan
Cawson ni orymdaith dros Ifan Owens, y myfyriwr sydd o hyd yn yr ysbyty yn dilyn yr ymosodiad creulon arno y mis diwethaf. Rydyn ni wedi codi £1200 eisoes drwy UMCA a byddwn ni'n parhau i wneud hynny yn ystod ein Hwythnos RAG rhwng 13 a 20 Ebrill.



O ran yr orymdaith, mynychodd tua 400 o bobl a hoffwn i ddiolch i'r Dirprwy Is-ganghellor, Rhodri Llwyd Morgan, a Ben Lake am annerch yn y Bandstand

- Y diweddaraf ar Bantycelyn – Bydd y gwaith yn cychwyn ddechrau mis Ebrill. Roedden ni'n hapus gyda'r cyflwyniad marchnata a gawson ni yng nghyfarfod Bwrdd Prosiect Pantycelyn ac yn edrych ymlaen, yn rhyfeddol, at symud allan o'r adeilad hanesyddol.
- Yn olaf, yr wythnos hon yn yr Undeb yw'r Wythnos Gymraeg. Mae llawer o ddigwyddiadau a gweithgareddau gydol yr wythnos, gan gynnwys Sŵn ddydd Iau hwn am 10.30 yn y Brif Ystafell. Dewch draw i fwynhau

Bruce – Swyddog Datblygu'r Undeb

Gyda'r cynnydd a wnaed gan y Brifysgol ar y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd, dwi wedi bod yn trafod y cynnydd hwn gyda'r adrannau mae'r camau hyn yn effeithio arnynt. Yn bennaf gyda myfyrwyr Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu yn ystod y semester cyntaf, ac yn fwy diweddar gyda Myfyrwyr Hanes a Hanes Cymru, gan sicrhau bod Pwyllgor Gwaith y Brifysgol yn clywed eich llais a'ch pryderon yn ystod y cyfnod anodd hwn i'r Brifysgol. Sefydlu'r grŵp glas-fyfyrwyr swyddogol cyntaf ar Facebook i arbed myfyrwyr rhag cael eu twyllo i brynu tocynnau ffug ar-lein cyn iddynt hyd yn oed ddechrau yma yn Aber. Dwi hefyd yn bwriadu parhau â hyn yn yr ail semester, ac yn ystod y blynyddoedd nesaf er mwyn sicrhau na chaiff myfyrwyr Aber yn y dyfodol eu camarwain gan grwpiau anghyfreithlon ar-lein.

Cyfarfodydd gyda'r Is-Ganghellor am lawer o bynciau gwahanol, gan geisio cyflwyno'r trosolwg gorau o'r hyn y mae myfyrwyr ei eisiau yn Aberystwyth. O fewn fy rôl, rwy'n gwneud fy ngorau i sicrhau bod ein corff myfyriwr yn cael ei glywed ar y lefel uchaf o bwllgorau gwaith y Brifysgol.

Cefais y plaser o gwrdd â Llysgenhadaeth yr Wcrâin i goffáu ac anrhydeddu trasiedi Holodomor.

Ymweliad gan UCM Cymru - daeth Gwyneth Sweatman a Steve Coole draw i'n darparu â'r wybodaeth ddiweddaraf, oedd yn ddefnyddiol o ran gweld beth mae UCMC yn ei wneud i ni. Hoffwn nodi fy niolch i Syr Emyr - yr Hen Ganghellor a Chadeirydd Cyngor y Brifysgol am fod yn wych yn ystod ei gyfnod yn y rôl, bydd yr Undeb yn gweld colled fawr ar ei ôl.

Mae mwy o Fwrsariaethau Chwaraeon ar gael, a dylent nawr fod yn hygyrch i fwy o fyfyrwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf; dim ond aros am gadarnhad o ran pwy all wneud cais amdanynt, bellach nid dim ond yr ymgeiswyr.

Os oes unrhyw beth arall yr hoffech ei wybod gen i, neu unrhyw beth rydych am i mi fwrw golwg arno, mae croeso i chi gysylltu â fi ar sudevelopment@aber.ac.uk